Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: **Dydd Iau, 19 Ionawr 2012**

Teitl*:* Corff addysg uwch yn cyhoeddi ymddeoliad ei brif weithredwr

Heddiw, cyhoeddodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) fod ei brif weithredwr, yr Athro Phil Gummett, yn bwriadu ymddeol yn ddiweddarach eleni, nid yw'r dyddiad wedi'i gadarnhau eto, ond mae'n debygol y bydd rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2012.

Ymunodd yr Athro Gummett â CCAUC pan oedd ar secondiad o Brifysgol Manceinion ym mis Hydref 2000, ar adeg pan roedd CCAUC yn dod yn rhan o strwythur mwy o faint ar y cyd ag ELWa (Dysgu ac Addysgu Cymru). Gwahanwyd CCAUC oddi wrth ELWa yn 2003 a daeth yr Athro Gummet yn brif weithredwr ar CCAUC yn 2004.

Meddai'r Athro Gummett: "Rwyf wedi mwynhau fy amser gyda CCAUC yn fawr. Bu'n fraint gweithio gyda chydweithwyr rhagorol yn CCAUC, ac ymgysylltu â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a'r sector AU i fynd i'r afael â'r heriau niferus sy'n wynebu AU yng Nghymru yn ystod cyfnod o newid sylweddol."

Meddai Roger Thomas, cadeirydd CCAUC,: "Nid amser i ffarwelio mo hwn. Digon yw dweud am y tro y bu Phil Gummett yn brif weithredwr rhagorol, cwbl ymrwymedig a chefnogol iawn, a byddwn yn parhau i ddibynnu ar ei gyngor doeth a'i arweinyddiaeth hyd nes y bydd yn ein gadael, wrth i ni fynd i'r afael â'r materion sy'n deillio o'r trefniant ffioedd newydd, ailstrwythuro'r sector AU, a nifer o faterion eraill."

Diwedd

Nodiadau

CCAUC - cysyllter ag: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu
029 2068 2225 emma.raczka@hefcw.ac.uk

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) sy'n gyfrifol am weinyddu cyllid a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

CCAUC hefyd sy'n gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon i athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

www.hefcw.ac.uk